

## Cofnodion Cyfarfod y 6ed Fedi 2016

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cyngorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, R. Hefin Williams, Euryn Roberts, Sion Jones, Jane Pierce, Richard Ll. Jones, Idris Thomas

**Gwedd:** Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

**1. Ymddiheuriadau.** Aled Green, Geraint Hughes,

Gyda thristwch, darllenwyd nodyn gan Geraint Hughes,, ei fod bellach yn rhoi ei sedd I fyny ar y Cyngor Cymuned. Dymunwn fel Cyngor Ddiolch iddo am ei waith yn ystod y blynyddoedd a fu wrthi yn gynghorydd cymunedol yn Neiniolen, ac yn dymuno yn dda iddo yn y dyfodol.

**2. Datgan buddiant.** Dim

**3. Cofnodion cyfarfod 5ed Gorffennaf 2016**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**4. Materion o'r cofnodion**

**Lon Castell Rhiwlas** – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn datgan fod y gordyfiant ar y lon wedi derbyn y toriad wedi hir gwyno a phroblemau mawr gan nad oedd y gwaith yn cael ei wneud mewn da bryd, er cwyno a Gwynedd yn gaddo bob amser. Dywedodd y cynghorydd Hefin Williams bod yn rhaid sicrhau fod y gordyfiant yn yr ardaloedd ac ar y lonydd gwledig yma yn cael eu trin yn y dyfodol, gan fod y lon yma wedi creu peryglon hefyd. Llythyr yn ategu hyn i Wynedd.

**Biniau Halen** – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn cadarnhau y penderfyniad ein bod yn cytuno i Wynedd lenwi ein biniau halen, ac mi fyddent yn sicrhau fod 2 fin halen o'r newydd yn cael eu gosod yn ardal Rhiwlas

**Troiad Greenwood** – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn dilyn ein cŵyn am y peryg ar y cyffordd yma ger Gors Bach. Ni fydd posib iddynt wneud dim ynglyn a'r ardal oherwydd diffyg cyllid. Llythyr yn ôl i Wynedd yn gofyn iddynt o leiaf beintio y llinellau gwyn y ddwy ochor yn lle bod yna basio o'r ochor tu mewn sydd a peryg yn dilyn y lon yn ymuno o ardal eglwys Llanddeiniolen.

**5. Gohebiaeth a materion eraill**

**Llythyr Bwrdd Dŵr** – Llythyr yn ein hysbysebu eu bod yn gwario £1 miliwn ar y safle trin dŵr gwastraff ar ffordd Craig y ddinas, Penisarwaun. Y clerc i ysgrifennu llythyr yn gofyn am esboniad ac ymholiadau pellach o wario £1 milliwn ar y safle.

**Gwasanaeth Symudol Bost** – Derbyniwyd llythyr fod y swyddfa bost yn gobeithio dechrau gwasanaeth post symudol ym Maes Gwylfa, Clwt y Bont ar fore Gwener o 10:45 – 12:15. Mwy o fanylion i ddilyn yn y man.

**Seindorf Ieuenctid Deiniolen** – Derbyniwyd llythyr gan arweinydd y seindorf ieuenctid, Osian Thomas yn diolch am rhodd ariannol y Cyngor Cymuned tuag at gostau bws i 2 gystadleuaeth. Braint oedd clywed am eu llwyddiant eto eleni yn y Drenewydd, ac yn y Whit Friday marches yn Saddleworth. Mae'r cyngor yn falch iawn o lwyddiant y band a'u harweinydd ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu cystadleuthau y tymor hwn.

**Eisteddfod Genedlaethol** – Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a fu yn llwyddianus yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni eleni hefyd.

**Cymllun Efe** – Derbyniwyd llythyr yn gwahodd aelod o'r cyngor i gyfarfod Cynllun Efe. Bydd y Cynghorydd Richard Ll. Jones yn mynychu ar ran y cyngor cymuned.

## **6. Cynllunio**

### **Derbyniwyd Ceisiadau:**

**1 Stad y Rhos, Bethel** – Codi estyniad deulawr ochor

**Hafoty, Dinorwig** – Gwaith rendro simdde presennol

**Gwyn dy Rhiwen** – Adeiladu ty ar safle presennol

**Fferm Cefn Llan, Bethel** – Codi estyniadau ochor yn cynnwys balconi, addasiadau i'r eiddo a codi sied

**Tyn Pwll, Bethel** – Dymchwel y ty presennol a codi dau dy yn ei le

**St Teilo Residential Home** – Trosi cyn gartref nyrsio yn 3 annedd

**Y Bedol, Bethel** – Addasiad l eiddo presennol gan gynnwys troi tafarn/bwyty yn dafarn ac ardal manwerthu bwyd a chrefftau, codi porth newydd, troi anheddle presennol yn 3 fflat hunan gynhaliol a darparu man parcio arddangos ceir ychwanegol ar gyfer Ceir Cymru

**Ty Cerrig, Bethel** – Codi adeilad amaethyddol – gweithdy newydd

**Cofnod Stryd, Bron Gwynedd, Bethel** – Cais llawn l godi 4 ty fforddidwy, creu ffordd stad, maes parcio a mynedfa gerbydol newydd

## **7. Dinas Dinorwig**

*Yn dilyn problem a wynebwyd dros gyfnod gwyliau'r Haf gyda mynediad i'r safle yma, gwahoddwyd Dafydd Whiteside Thomas atom i roi braslun o'r hanes. Yn anffodus, roedd yn rhaid i Mr. Thomas ymddiheuro, ond mae'r cyngor yn hynod ddiolchgar iddo am yrru adroddiad o'r gwaith ymchwil. Rhoddodd y Cynghorydd Euryn Roberts sgwrs am y safle a'r problemau sydd gyda mynediad a'r safle ei hun i ni. Mae Euryn wedi bod yn gweithio yn ddiwyd er mwyn ceisio cael gwybodaeth a chefnogaeth yn ei ymgyrch dros yr haf. Mae'r cyngor yn cefnogi Euryn cant y cant yn ei ymchwil i hybu y safle ac i geisio cael mynediad yno. Mae yna erthygyl wedi ymddangos ar wefan Golwg a gobeithio y bydd erthygyl yn ymddangos yn Eco'r Wyddfa mis nesaf. Y clerc i yrru at Dafydd Whiteside, a llythyr i Cadw a Sian Gwenllian ein bod yn cefnogi y cynghorydd Euryn Roberts*

## **8. Seddi Gwag**

Dywedodd y clerc nad oes NEB wedi dangos didderdeb i lenwi bylchau yn y seddi gwag.

## **9. Rheolau Sefydlog**

**Dim amser i drafod - symud ymlaen i'r cyfarfod nesaf**

## **10. Cysgodfan Bws Rhiwlas.**

Gofynnodd y cynghorydd Hefin Williams os oes modd cael Cysgodfan Bws ger y Kiosk yn Rhiwlas. Erbyn hyn mae cymaint o bobl hyn y pentref yn defnyddio'r bws, ond nid oes unlle iddynt gysgodi tra yn disgwyl am fws, Nid oes ddim un cysgodfan bws yn Rhiwlas, ac mae wir angen un. Cytunwyd yn unfrydol, y clerc i gysylltu a adran Cludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd.

## **11. O gwmpas y Bwrdd**

**Rhiwlas** – Oes posib cysylltu a Express Motors i gael cadarnhad o amserlen o bysus sydd yn gallu mynd i fyny'r allt yn Rhiwlas, gan nad yw bob un yn mynd, ac felly yn creu ansicrwydd i deithwyr.

**Penisarwaun** – Dywedodd y Cyngorydd Phyllis Ellis bod sôn am symyd polyn trydan o'r groesffordd yn Tan Gaer. Tybed oes modd gosod golau ar y polyn. Bydd cost o £700. Mae 3 gwter wedi blocio ger tai Brynhyfryd, clerch I gysylltu a Gwynedd.

**Bethel**- Tybed oes modd cael gwybod pwy biau'r tir sydd ar gongol Tre'r Gôf yn Bethel.

**Bethel** – Dal i ddisgwyl swyddog i ymweld a'r Post ym Methel ynglyn a safle parcio anabl. Cysylltu a Gwynedd ETO